# SL(5)600 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i ychwanegu Portiwgal at y rhestr [1], ac i hepgor Awstria, Croatia a Thrinidad a Thobago.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r categorïau o bersonau sydd yn esempt o'r gofynion i ynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Mae paragraff 38 newydd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a fewnosodir gan reoliad 8(3) o'r Rheoliadau hyn, wedi ei ddrafftio yn yr amser gorffennol yn y testun Saesneg, ond yn yr amser presennol yn y testun Cymraeg.

[1] Er bod Portiwgal, ar yr adeg ysgrifennu, wedi'i hepgor o'r rhestr.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol bod angen cyfnod o 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a bod Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, wedi esbonio'r rheswm dros hyn mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 21 Awst 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud y canlynol:

> *"mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys fersiwn PDF o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn dweud *"I ddangos sut y diwygiwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020"*. Mae'r fersiwn PDF hon yn Gymraeg (cyfeirir defnyddwyr at wefan legislation.gov.uk i gael fersiwn gyfoes yn Saesneg). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei bod wedi ei diweddaru ers 15 Mehefin 2020, felly nid yw'n adlewyrchu'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, nac unrhyw ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ers 15 Mehefin. Felly, nid yw'n ymddangos bod fersiwn gyfunol o fewn cyrraedd hwylus o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol testun Cymraeg.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt technegol ac i'r ail bwynt o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Medi 2020**